# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: Ar-lein

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Mai 2024

Amser: 09.02 - 09.46

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod. Anfonodd y Llywydd ymddiheuriadau ar gyfer eitemau 6.1 a 6.2, a gafodd eu cadeirio gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Gofynnodd Darren Millar a Heledd Fychan am ddatganiad llafar gan y Prif Weinidog ar ei ymweliad â Tata Steel yn India. Nododd y Trefnydd fod datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi a chytunodd i ychwanegu datganiad llafar ar y mater at agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw:

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Tata Steel (60 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.00pm

**Dydd Mercher**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i newid aelodau Llafur ar nifer o bwyllgorau i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher. Felly, cytunwyd ar y newid a ganlyn i agenda dydd Mercher:

- Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am yr ychwanegiad a ganlyn i amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Diwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol – ailddatgan ein gwerthoedd (45 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan am eglurder ynghylch a fydd y datganiad uchod yn canolbwyntio ar bortffolio llawn Ysgrifennydd y Cabinet. Dywedodd y Trefnydd y byddai hyn yn digwydd.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 12 Mehefin 2024 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Joel James AS (Canol De Cymru) (30 munud)

### 3.4 Cynigion deddfwriaethol yr Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynnig arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig ar 22 Mai:

**Sioned Williams**

**NNDM8580**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil addysg wleidyddol.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sicrhau bod pob dysgwr mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru yn cael addysg benodol yn ymwneud â gwleidyddiaeth a democratiaeth Cymru;

b) ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a choleg sicrhau bod dysgwyr yn deall pwysigrwydd ymgysylltu dinesig ym mhroses ddemocrataidd Cymru; ac

c) sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn teimlo'n fwy hyderus a gwybodus am etholiadau a phwrpas a phroses bwrw eu pleidlais.

### 3.5 NNDM8578 – Dyfodol gwaith dur Port Talbot

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais a wnaed gan Luke Fletcher i drefnu dadl ar Gynnig Heb Ddyddiad Trafod 8578 ynghylch dyfodol gwaith dur Tata ym Mhort Talbot.

Mynegodd Heledd Fychan gefnogaeth i amserlennu dadl ar y cynnig.

Cytunodd mwyafrif ar y Pwyllgor Busnes y dylid ychwanegu datganiad llafar gan y Prif Weinidog ar y pwnc hwn at agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw yn hytrach nag amserlennu dadl, fel y dangosir o dan eitem 3.1.

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i wneud yr hyn a ganlyn:

- cyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps a osodwyd ar 9 Mai at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar gyfer craffu, gyda dyddiad cau o 5 Gorffennaf 2024 ar gyfer cyflwyno adroddiad. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes yr awgrym a ddarparwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd yn defnyddio ei holl slotiau cyfarfod sydd ar gael ar gyfer craffu ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac y byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am gymorth Ysgrifennydd y Cabinet i ddod o hyd i amser i glywed tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor Busnes fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gallu codi unrhyw anawsterau yr oedd yn eu hwynebu wrth gwrdd â'r dyddiad cau hwnnw gyda'r Pwyllgor Busnes.
- cyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) a osodwyd ar 8 Mai ar gyfer craffu at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 5 Gorffennaf 2024.

## 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr y Pwyllgor a'i sylwadau ynghylch pwysigrwydd rhoi digon o amser i bwyllgorau graffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol.

### 4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch ei adolygiad arfaethedig o Reol Sefydlog 29.1

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i nodi ei fod yn disgwyl ystyried ymhellach ei waith ar y broses cydsyniad deddfwriaethol, gan gynnwys y materion a godwyd, cyn toriad yr haf.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch cylch gwaith y pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch ei gylch gwaith a chytunodd i ysgrifennu at bwyllgorau eraill y Senedd i'w gwahodd i roi eu barn ar gylch gwaith presennol y pwyllgorau, yng ngoleuni newidiadau i bortffolios gweinidogol.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Trefniadau cadeirio dros dro Pwyllgor y Llywydd

Trafododd y Pwyllgor Busnes newid arfaethedig i Reol Sefydlog 18B a'r canllawiau drafft sy'n gysylltiedig â hyn a chytunwyd i adroddiad drafft gael ei lunio i gynnig y newid i'r Senedd.

### 6.2 Terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn cynnwys opsiynau i ganiatáu rhagor o amser rhwng terfynau amser cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol a thrafodion ar y gwelliannau hynny.

Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater yn ei gyfarfod nesaf i gael trafodaeth bellach ar y posibilrwydd o ddwyn ymlaen y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i saith diwrnod cyn y trafodion, a hynny dros dro, cyn yr adolygiad ehangach o'r broses graffu ddeddfwriaethol a drefnwyd yn ei raglen waith gweithdrefnol.